# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Anheddau Cyf**

**Anheddau Cyf**
**Uned 6 Llys Britannia**
**Ffordd y Parc Parc Menai**
**Bangor**
**LL57 4BN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 20 Gorffennaf 2023.

25/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Anheddau Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir. | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Anheddau Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Anheddau yn darparu cymorth cartref i bobl yn y gymuned. Gwelsom fod y gwasanaeth yn canolbwyntio i raddau helaeth ar yr unigolyn, gan ystyried anghenion a dewisiadau pawb sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth yn galluogi'r bobl i fod mor annibynnol ac iach â phosibl. Caiff y bobl eu cefnogi i fagu hyder ac i ddysgu sgiliau i'w helpu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol. Caiff y bobl eu galluogi i fod yn rhan o'u cymuned leol ac i ddod o hyd i waith a datblygu sgiliau cymdeithasol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal sydd wedi eu helpu i fagu hyder yn eu bywydau beunyddiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith a bod y rheolwyr yn gefnogol iawn. Dywedodd y staff eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd i'w cefnogi yn eu rôl. Rhoddodd y staff ganmoliaeth benodol i'r hyfforddiant a gynigir iddynt gan y gwasanaeth gan ddweud ei fod yn dda iawn ac yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt yn eu rôl ofalu. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn mesur ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion unigol. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu ar y cyd â'r unigolyn, lle y bo'n gallu gwneud hynny, er mwyn ei gynnwys yn llawn yn ei ofal a'i gymorth. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd a'u newid fel y bo'n ofynnol. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi cipolwg manwl ar y person, y drefn ddyddiol sydd orau ganddo a'i hanes personol. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau teuluol ac i gyfathrebu â'u teulu ac mae'r gweithwyr cymorth gofal yn helpu i drefnu ymweliadau a gwyliau gyda'u hanwyliaid. Gall y bobl wneud beth maent yn ei fwynhau a chael bywyd cymdeithasol bywiog. Gwelsom fod y bobl yn cael cymorth i fynd i siopa, mynychu dyddiau sba, partïon, clybiau cymdeithasol lleol, a digwyddiadau. Dywedodd y bobl wrthym am ymweliadau a oedd wedi'u trefnu i fynd i weld sioeau yn y theatr ac i weld y goleuadau yn Blackpool. Roedd y bobl yn siarad yn gynnes am eu cartref a sut y caiff eu hystafelloedd eu haddurno yn unol â'u chwaeth bersonol.

Caiff y bobl eu galluogi i fagu sgiliau a hyder yn eu bywydau beunyddiol. Dywedodd person wrthym, "*I'm the main tea maker, I didn't even know how to make tea before I came here!"* Gwelsom fod tasgau gwaith tŷ penodol yn cael eu neilltuo i'r bobl, os ydynt yn gallu eu gwneud, a'u bod yn cael cymorth i ddewis prydau ar gyfer yr wythnos ac i'w coginio. Gwelsom fod cydberthnasau agos a chryn ymddiriedaeth rhwng y gweithwyr cymorth gofal a'r bobl sy'n derbyn gofal. Mae'r gofalwyr yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu rhagweld eu hanghenion. Gall y bobl fynychu gwasanaethau dydd a chânt eu galluogi i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn unol â'u galluoedd. Mae systemau da ar waith i gadw cyllid y bobl yn ddiogel, ac i sicrhau y gallant gael gafael ar arian fel y bo'n ofynnol. Mae'r bobl yn cael dewis sut i fyw eu bywydau a chânt gymorth i wneud penderfyniadau fel rhan o'u bywyd beunyddiol a phenderfyniadau sy'n ymwneud â'u dyfodol.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed er mwyn gallu eu cadw'n ddiogel. Gall y staff ddisgrifio'r protocolau diogelu lleol i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am y bobl a'u gofal. Gall pobl heb deulu neu gynrychiolaeth ddefnyddio gwasanaethau eirioli lleol i sicrhau y caiff eu hawliau eu hamddiffyn.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwelsom dystiolaeth o bobl yn mynychu apwyntiadau ysbyty, apwyntiadau deintyddol ac apwyntiadau optegol. Mae'r staff yn trefnu i'r bobl gael eu gweld gan wasanaethau y tu allan i oriau os byddant yn sâl. Gwelsom fod y bobl yn cael cymorth i wneud dewisiadau bwyd iach ac yn cael cymorth i ymateb i heriau sy'n ymwneud ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â bwyd a diod. Caiff y bobl eu galluogi i aros mor egnïol â phosibl ac i gael dewisiadau beunyddiol am eu gofal. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys disgrifiad o'u diwrnod gorau ("*best day"*) a manylion am eu hoff arferion, gweithgareddau a threfniadau cyswllt â ffrindiau ac anwyliaid.

Mae meddyginiaethau ar gael i'r bobl yn ôl yr angen. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth, a chaiff cymwyseddau eu hasesu'n rheolaidd gan y rheolwyr. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar gyfer anhwylderau penodol, fel y bo'n ofynnol, megis rheoli epilepsi. Mae'r staff yn sicrhau bod y bobl yn cael eu presgripsiynau meddyginiaeth mewn modd amserol, a bod adolygiadau yn cael eu cynnal ar y cyd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel y nodir. Mae "taflenni parod" ar gael ar gyfer y bobl os bydd eu hangen mewn argyfwng, sy'n cynnwys gwybodaeth feddygol hanfodol a sbardunau ymddygiad yn ogystal â sut i roi tawelwch meddwl i'r bobl.

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant cadarn gan y gwasanaeth. Canmolwyd yr hyfforddiant gan y staff, a nodwyd "*It's intense but very good".* Dywedodd y staff fod yr hyfforddiant yn rhoi gwybodaeth iddynt i lywio eu hymarfer wrth ymgymryd â'u rôl ddyddiol. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu pynciau craidd, a phynciau arbenigol. Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Nid ydym yn adrodd ar yr amgylchedd gan fod y bobl yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gall y bobl ddylanwadu ar eu hamgylchedd a'u bod yn cael eu galluogi i ddewis eu décor eu hunain. Mae'r bobl yn gallu disgrifio'r weithdrefn ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân neu argyfwng, ac maent yn ymwybodol o leoliad y pwyntiau ymgynnull y tu allan i'r tai.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn gadarn. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r tai, gan ofyn am farn y bobl a'r staff am y gwasanaeth. Caiff yr adolygiad o ansawdd ei gyhoeddi ar ffurf adroddiad gan yr Unigolyn Cyfrifol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwelsom fod cyfathrebu rheolaidd â'r staff er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a'u bod yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn perthynas â rhedeg y gwasanaeth.

Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff yn dda. Dywedodd llawer o'r staff wrthym eu bod wedi gweithio i'r gwasanaeth am sawl blwyddyn a'u bod yn mwynhau eu gwaith. Gwelsom fod y staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd â'u rheolwr i'w cefnogi yn eu gwaith ac i annog ymarfer da. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn rhagweithiol. Gwelsom fod cofnodion y staff yn drefnus, a bod gwiriadau yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn briodol i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw anawsterau ariannol mewn perthynas â'r gwasanaeth. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym am broses ailstrwythuro sylweddol i drefniadau rheoli'r gwasanaeth a fydd yn dechrau ym mis Awst 2023. Byddwn yn adolygu hyn yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/10/2023